

## Organebau a'r Amgylchedd Cylchlythyr 2025



### Rhestr o Gyrsiau

**BSc** Ymddygiad Anifeiliaid; Ecoleg;  
Bioleg y Mor a Dŵr Croyw;  
Cadwraeth Bywyd Gwyllt; Sŵoleg  
**MBiol** Sŵoleg; Bioleg y Mor a Dŵr Croyw  
**Diddordeb?** Ffoniwch Dr Helen Marshall ar  
01970 628445 neu Ebostiwch:  
hem@aber.ac.uk

### Un o raddedigion Sŵoleg Aber yn ymchwilio i riffiau cwrel yng Nghefnfor India



Llun: Jay Burk

Meddai Jason Burk, un o raddedigion Aberystwyth: “Bydd lle yn fy nghalon am byth i Aberystwyth ac mae’n parhau i fod yn un o fy hoff gyrchfannau. Fodd bynnag, mae fy amser ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi caniatáu i mi ddatblygu ac archwilio fy angerdd dros y byd naturiol, a gwneud hynny mewn rhai lleoedd gwirioneddol anhygoel. Mae’r sgiliau a ddatblygwyd yn ystod BSc Sŵoleg ac MRes Biowyddorau yn Aber wedi fy arwain at ymchwilio a monitro poblogaethau riffiau cwrel, crwban, mamaliaid morol, adar môr a phryfed arfordirol, yn ogystal â fy arwain at fy PhD presennol ym Mhrifysgol Essex. Mae’r PhD hwn ar gysylltedd genomig, hydrodynameg a ffylogenomeg riffiau cwrel môr bas ar draws Cefnfor India. Gobeithiwn archwilio’r ffactorau sy’n sbarduno strwythur poblogaeth cwrel er mwyn ein galluogi i ddeall yn well sut y bydd riffiau cwrel yn ymdopi yn wyneb newid hinsawdd”.

### Mae'n well gan ieir bach yr haf olau UV



“Mae canllawiau moesegol ar gyfer ceidwaid glöynnod byw yn sôn yn benodol am fwyd, gofod, tymheredd, lleithder a hylendid, ond nid golau. Gallai deall eu hanghenion goleuo wella hwsmonaeth tŷ pili-pala, ac yn ei dro ganiatáu mwy o fridio ar y safle a phryfed iachach.”

Mae'n well gan ieir bach yr haf oleuadau sy'n cynnwys uwchfioled yn ôl astudiaeth newydd gan Dr Rowan Thomas, un o raddedigion BSc Bioleg a PhD Prifysgol Aberystwyth.


Mae ymchwil Rowan, a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Animal Behaviour, yn dangos, er nad yw goleuadau artiffisial heb UV yn effeithio ar weithgaredd glöynnod byw wedi'u paentio, pan gânt ddewis, mae'n well ganddynt olau uwchfioled. Mae gan y canfyddiadau oblygiadau o ran lles anifeiliaid caeth, oherwydd yn aml nid oes gan y goleuadau artiffisial a ddefnyddir mewn llociau dan do donfeddi UV y mae llawer o anifeiliaid nad ydynt yn ddynol yn sensitif iddynt.

### Astudio effaith newid hinsawdd ar gystadleuaeth rhwng adar

Mae blychau nythu mewn coetir lleol yn cael eu harolygu fel rhan o astudiaeth hirdymor. Dywedodd arweinydd y prosiect a darlithydd Prifysgol Aberystwyth Dr Peter Korsten: “Gwyddom fod gwanwyn cynhesach eisoes yn arwain at adar yn bridio’n gynharach, a gobeithiwn ddeall mwy am sut y gallai hyn effeithio ar y gystadleuaeth rhwng gwahanol rywogaethau adar.” Mae Dr Korsten wedi cael cymorth gan fyfyrwyr BSc Cadwraeth Bywyd Gwyllt Isobel Griffith a Rose Markham-Gill. Dywedodd Rose, “Rwyf wedi bod wrth fy modd yn bod yn rhan o wiriadau blychau eleni ac yn edrych ymlaen am hyn dros y blynyddoedd nesaf i’r traethawd hir ac ymchwil pellach Peter. Mae’n beth mor wych cael mynediad i’r blychau nythu a gwyllo’r gwanwyn yn datblygu. Mae pob wythnos wedi bod yn gyffrous ac wedi fy ngalluogi i werthfawrogi byd natur mewn ffordd na allwn erioed ei chael o’r blaen.”



**Adfer bywyd gwyllt yng Nghanada!** Cwblhaodd Tyler Landon, myfyriwr BSc Sŵleg (gyda Blwyddyn Integredig mewn Diwydiant) leoliad 10 mis gyda 'Hope for Wildlife', noddfa adsefydlu bywyd gwyllt yn Nova Scotia, Canada. Yn ystod y lleoliad datblygodd Tyler sgiliau adsefydlu bywyd gwyllt gan weithio gydag anifeiliaid anafedig ac amddifad o amrywiaeth o rywogaethau, gan gynnwys racwn, bobcats, dyfrgwn a morloi. "Yn ystod fy nghyfnod fel staff, fe wnes i hyfforddi a mentora interniaid newydd a dysgu mwy am y rhywogaethau anifeiliaid roeddwn i'n arbenigo mewn gweithio gyda nhw, gan helpu ar y cyfan i adeiladu fy hyder yn y diwydiant a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn rhan ohono".



**Ymchwil riff cwrel yn Awstralia!** Gweithiodd Nina Strzelecka, myfyrwraig BSc Bioleg y Môr a Dŵr Croyw (gyda Blwyddyn Integredig mewn Diwydiant) am 8 mis fel cynorthwy-ydd ymchwil yn Sefydliad Gwyddor Môr Awstralia. Canolbwyntiodd prosiect Nina ar fetabarcodio *Acropora tenuis* (cwrel canghennog) o wahanol leoliadau ym Mharc Morol Ningaloo i ymchwilio i weld a yw'r amodau amrywiol o amgylch y parc yn creu cymunedau microbaidd amrywiol. Rôl Nina oedd echdynnu DNA microbaidd ac optimeiddio protocol PCR. "Roeddwn i hefyd yn ffodus iawn i gymryd rhan yn eu taith ymchwil lle cefais blymio a chasglu samplau cwrel".



### Portreadau o bryfed i'w cyhoeddi mewn llyfr Newydd

Roedd fy nhair blynedd yn Aberystwyth ymhlith y rhai hapusaf fy mywyd. Mae yna rywbeth gwirioneddol arbennig am ymchwil sy'n gwneud i chi deimlo fel eich bod yn sefyll ar y ffin o ddarganfod, gyda phob canfyddiad yn ymestyn ffiniau gwybodaeth. Ychydig cyn cyrraedd Aber, roeddwn wedi dechrau arbrofi gyda ffotograffiaeth trychfilod, proses hynod ddiddorol sy'n trawsnewid y smotiau anhygoel sy'n hedfan heibio i'r hyn ydyn nhw mewn gwirionedd—creaduriaid grotesg, ond weithiau rhyfedd o hardd ac estron. Yn ystod fy amser ym Mhrifysgol Aberystwyth y daeth yr angerdd hwn yn wir. Wrth ddilyn PhD ar ymddygiad pryfed, deuthum i sylweddoli bod bywydau pryfed yr un mor grotesg, ond eto'n rhyfedd o hardd. Arweiniodd y daith hon yn y pen draw at ryddhau fy llyfr 'Insect Portraits', sef casgliad o ffotograffau ar ffurf portread wedi'u paru â straeon cysylltiedig, sy'n arddangos natur ryfeddol y creaduriaid hyn – Dr Lisa Clancy.

### Deall ecoleg seilwaith llinol i helpu i ddiogelu bywyd gwyllt



Mae seilwaith dynol (e.e. ffyrdd, llinellau pŵer) yn cael effeithiau andwyol di-ri ar fioamrywiaeth fyd-eang ac mae llawer o fylchau gwybodaeth o hyd ynghylch maint yr effeithiau hyn a sut i'w lliniaru. Mae Dr Bibi Linden, darlithydd o Brifysgol Aberystwyth, yn ceisio llenwi'r bylchau hyn, gan astudio primatiaid o bryder cadwraeth uchel yn Ne Affrica, yn ogystal â rhywogaethau mamaliaid y DU, i gefnogi ymdrechion cadwraeth rhywogaethau. Mae ein myfyrwyr hefyd yn dod i ddeall y materion hyn, diolch i addysgu Bibi a arweinir gan ymchwil.